# Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau

## 17 Mehefin 2025

Yn bresennol: Dr M Havard, y Cynghorydd D Clements a Mr I Thomas (Aelod Lleyg).

Roedd Mr Michael Kent, Y Swyddog Monitro, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod fel ymgynghorydd ar lywodraethu.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00pm – 5.15pm)

**1. Penodi Cadeirydd**

Penderfynwyd penodi Dr Havard yn Gadeirydd y cyfarfod**.**

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A Tinley.

**3. Datgan Buddiannau**

Roedd y Cynghorydd Clements wedi datgan ei bod yn adnabod un o'r ymgeiswyr drwy gysylltiadau proffesiynol ond ei bod o'r farn bod hyn ond yn fuddiant personol.

**4. Eithrio'r Cyhoedd**

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**5. Penodi Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau**

Atgoffwyd y Panel bod swydd wag wedi codi i Aelod Annibynnol wasanaethu ar Bwyllgor Safonau yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Roedd pump o ymgeiswyr wedi gwneud cais ac wedi cael eu rhoi ar restr fer i gael cyfweliad i lenwi'r swydd wag, fodd bynnag dim ond pedwar o'r pump ymgeisydd oedd wedi derbyn y gwahoddiad i gyfweliad.

Yn dilyn y cyfweliadau, oherwydd safon uchel yr ymgeiswyr, bu'r panel yn trafod penodi dau aelod annibynnol yn hytrach na dim ond un, oherwydd yr anhawster o benodi Aelodau Annibynnol yn flaenorol.

**Penderfynwyd** y dylid gwneud argymhelliad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i benodi Mr Lyndon Freeman a Mr Rhodri Lewis yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.